# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-18-09)

**Dyddiad: 6 Gorffennaf 2009**
**Amser: 16:15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC306 - Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 26 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro camgymeriad y cyflwynodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth adroddiad arno ar 15 Mehefin 2009. Mae Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) (Diwygio) 2009 yn diwygio Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009, drwy gynnwys y gair "intentionally" o flaen "obstructs" yn y fersiwn Saesneg o reoliad 41(a).

Mae'r diwygiad hwn yn egluro ac yn cyfyngu ar natur y tramgwydd troseddol ac yn sicrhau bod cysondeb rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o Reoliadau 2009.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC304 - Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009-06-30

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 24 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 16 Gorffennaf 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer gorfodi rheoliadau marchnata'r Gymuned Ewropeaidd yn y sector ffrwythau a llysiau ffres y darperir ar ei gyfer yn Erthyglau 113 a 113a o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac ar ddarpariaethau penodol ar gyfer rhai cynhyrchion amaethyddol, ac a gynhwysir yn Nheitl II o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1580/2007 sy'n gosod rheolau gweithredu Rheoliadau'r Cyngor (EC) Rhif 2200/96, (EC) Rhif 2201/96 ac (EC) Rhif 1182/2007 yn y sector ffrwythau a llysiau.

Yn benodol, maent yn rhoi ar waith y diwygiadau a wnaed i reolau marchnata'r Gymuned a gyflwynwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1221/2008 yn y sector ffrwythau a llysiau o ran safonau marchnata.

SLC305 - Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 24 Mehefin 2009. Fe'i gosodwyd ar 25 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 28 Medi 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno, yng Nghymru, trefniadau codi ffioedd sy'n seiliedig ar amser ar gyfer hylendid cig a lles anifeiliaid o ran rheolaethau swyddogol ar ladd anifeiliaid, a hynny mewn safleoedd cig cymeradwy. Disodlir Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2008.

### Eitem 4: Y Mesur Cydraddoldeb

Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a LlywodraethLeol

SLC (3)-17-2009(p3): Y Mesur Cydraddoldeb a Nodiadau Esboniadol

SLC(3)-17-2009(p4): Nodyn y Cynghorwyr Cyfreithiol ar Ddarpariaethau'r Is-ddeddfwriaeth

SLC(3)-18-2009(p1): Cais gan y Cadeirydd am nodyn briffio gan y Gweinidog

SLC(3)-18-2009(p2): Ymateb y Gweinidog i gais y Cadeirydd am y nodyn briffio

SLC(3)-18-2009(p3): Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli 9: Deddfwriaeth sylfaenol ar ôl datganoli sy'n effeithio ar Gymru SLC(3)-18-2009(p4): Adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion yn ymwneud â Chymru sy'n deillio o'r Mesur Cydraddoldeb (Mesur Senedd y DU)

**Gwahoddir y Pwyllgor i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi):**

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.

### Eitem 4.2: Ystyried y dystiolaeth a'r argymhellion cychwynnol ar gyfer adroddiad y Pwyllgor.

### Eitem 5: Unrhyw fusnes arall

SLC(3)-18-2009(p5): Darn o Gofnod y Trafodion 30 Mehefin 2009 - Dadl Cyfnod 1 ar Egwyddorion Cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) (Dadl ynglŷn ag Adran 60 - y dewis o weithdrefn)

### Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf